WG35.S. 1609

# MARWNAD

Y DIWEDDAR

## BARCH. MICHAEL ROBERTS,

PWLLHELI.

*Bu farw Ionawr* 29, 1849, *yn* 68 *oed.*

AWEN Cymru cywilyddia,
  Pa le buost yn ymdroi ?
Er pan hunodd MICHAEL ROBERTS
  Mae blynyddoedd wedi ffoi;
Cenaist alarebau llyfnion
  I rai dinod yn eu dydd,
Gwelaist gladdu Seraph Cymru
  Heb un deigryn ar dy rudd.

MICHAEL ROBETRS! mae ei enw
  Yn agor beddau'r mynwes hon,
Ac yn codi hen adgofion
  I ymrithio ger fy mron ;
Wyf fel gwr mewn gweledigaeth,
  Yn ail dreulio boreu f' oes,
Yn mysg dylanwadau nerthol
  "Yr ymadrodd am y groes."

Llawer gwyneb welaf yma,
  Yn siriol wenu arna'i 'n awr,
Rhoddwyd ers blynyddau bellach
  Yn mhridd wely oer y llawr ;
Teimlo 'rwyf yr hen oedfeuon—
  Teimlo'r awel yn yr hwyl—
Clywed adsain cân a moliant,
  "Fel llais tyrfa yn cadw gwyl."

Taener clodydd John Elias—
  Sonier am ei ryfedd ddawn—
Casgler holl engreifftiau Cymru
  O hyawdledd nerthol, llawn ;
Gwell i mi oedd dawn trydanol,
  Gwrthrych yr alargerdd hon,
Medrai ef y ffordd i gelloedd
  Dyfnaf, t'wyllaf dan fy mron.

X205314219

Nid edd neb yn nyddiau'm hieuenctyd
Garwn glywed fel efe—
Pan agorai ei wefusau
Teimlwn Dduw yn llenwi'r lle;
Drychfeddyliau yn disgleirio,
Drwy'r ymadrodd treiddiol mwyn,
Nes oedd creigiau hen galonau
Yn ymollwng dan y swyn.

Nid drwy floedd, a geiriau gweigion,
Y cyrhaeddodd y fath radd,
Nid oes niwed mewn taranau
Y mellt distaw sydd yn lladd;
Yr oedd swn ei ddoniau esmwyth,
Fel awelon rhwng y dail,
Medrai ysgwyd teimlad plentyn
A'i gydwybod bob yn ail.

Mae dychymyg etto'n clywed
Yn nghlogwyni *Ebal* draw,
Adsain hir y llais effeithiol,
Fu'n cydrwymo myrdd mewn braw;
Pan gyhoeddai'r addewidion,
Ar bob gair gosodai swyn,
Y mae heulog fryn *Garizim*
Byth yn anwyl er ei fwyn.

Cofir rhai oedfaon rhyfedd
Yn yr hen Gymdeithasfäu,
Gan ryw luoedd yn y nefoedd,
Gawsant ynddynt eu bywhau;
Pan y torai'r cwmwl tanllyd
Uwchben y gynnulleidfa lawn,
Myrdd mewn gwasgfa am eu bywyd
Yn cydwaeddi "Beth a wnawn?"

Cofir byth yr oedfa hynod
Yn Nghymanfa Dinbych gynt,
Pan y plygai'r gynnulleidfa
Fel y goedwig gan y gwynt;
Gwelai'r dorf y farn yn eistedd—
Bydoedd yn llesmeirio 'nghyd—
Ond y dyn trwy ras yn sefyll
Ger bron Barnwr mawr y byd.

Bu yn wasanaethwr ffyddlon,
I'r *Trefnyddion* lawer blwydd,
Tynodd attynt gorph y werin
Drwy ei anghydmarol lwydd;

Cyn bod adeiladau mawrion,
  Cyn i'r miloedd amalhau,
Eraill sydd yn awr yn medi
  Lle bu ef yn diwyd hau.

Ni chyfodid un disgwyliad,
  Drwy ei olwg wledig iawn,
Oni buasai'r llygaid tanllyd
  Yn bradychu trigle'r dawn ;
Dan y symledd gwledig isel,
  'Roedd aeddfedrwydd barn a dysg,
Wnaeth i lawer coeg ymhonwr
  Deimlo'i bwysau yn ei mysg.

Myfyrdodau dwfn, diorphwys,
  Pryder meddwl, llafur mawr,
Oeddynt ormod baich i natur—
  Suddai dan eu pwys i lawr ;
Chwarddai Uffern, wylai Seion,
  Synai'r byd at drefn y nef,
Pan y d'ryswyd y cylymau
  Rhwng ei gorph a'i feddwl ef.

Bu y cysegr sancteiddiolaf
  O dan len dros lawer blwydd;
Tad yn Nghrist i lawer enaid,
  Fel yn blentyn yn ein gwydd ;
Mor aneglur yw bwriadau
  Dirgel troion trefn y nef,
Arbed doniau gwyr cyffredin,
  A charcharu'i ddoniau ef.

Bu'm mewn tristwch pan yn edrych
  Ar adfeilion palas gwych,
Gwel'd colofnau wedi cwympo
  A'r cerfiadau'n wael eu drych ;
Felly gwelwyd Michael Roberts,
  Teimlwyd ger ei fron yn brudd,
Chwyddai'r fynwes gan ei thristwch,
  Gwelwyd deigryn ar bob grudd.

Ond dattodwyd ei gadwynau,
  Cyn ei farw daeth yn rhydd,
Gwelwyd ef uwch ben y dyrfa
  Cyn machludo haul ei ddydd ;
Yr hen ddawn ganmolai'r tadau
  Glybu'r meibion wrth eu bodd,
Daeth fel *comed* drwy'r wybrenau,
  Dros ychydig—yna ffôdd.

Darfu'r llafur, darfu'r lludded,
  Darfu profiad oriau prudd,
Mae y deigr ddafnau olaf
  Wedi rhedeg dros ei rudd ;
Mud yw'r genau fu'n cyhoeddi,
  Addewidion fel y mêl,
Mae cyfryngau'r pur hyawdledd
  Hyd y farn i fod dan sêl.

Dymunasem wel'd ei ysbryd
  Yn cyrhaeddyd y nef draw,
Mil o olygfeydd newyddion
  Yn ymagor ar bob llaw ;
Hen gyfeillion yn ymgasglu
  I'w groesawi ef ynghyd,
Gan adgofio hen oedfeuon
  Gafwyd yma yn y byd.

Ond er cystal oedd cyfeillach
  Plant yr anial yn y nef,
Sylwedd mawr ei weinidogaeth,
  Aeth â'i holl feddylfryd ef ;
Syllai, synai, plygai, molai,
  'N ddiarwybod iddo'i hun,
Pan y cafodd gyflawn olwg
  Ar Fab Duw—Gwaredwr dyn.

Gorphwys, gorphwys, hen bererin,
  Cwsg i ben dy felus hûn,
Nes daw Crist i'th alw i godi
  Ar ei ddelw hardd ei hun ;
Ni bydd ôl y bedd na phechod,
  Nac un nychdod ar dy wedd,
Ti gei ganu "Buddugoliaeth"
  Ar adfeilion oer y bedd.

Mae ei enw'n pêrarogli
  Etto yn eglwysi'n gwlad,
Fe gyfeirir etto heddyw
  Gan ryw luoedd fel eu tad ;
Carant adrodd ei bregethau,
  Carant sôn am lawer gwledd,
Carant swn llyth'renau ei enw,
  Carant edrych ar ei fedd.

W. AMBROSE, PORTMADOG.

---

EVANS, ARGRAFFYDD, MACHYNLLETH.